**RHEOL SEFYDLOG 9 - Pwyllgorau Pwnc**

**Teitl ac Aelodaeth**

9.1 Gelwir y pwyllgorau a sefydlir o dan adran 57(1) o'r Ddeddf yn bwyllgorau pwnc. Yn dibynnu ar ofynion adran 57(8), bydd gan bob pwyllgor pwnc o leiaf saith ac nid mwy nag 11 o aelodau, gan gynnwys y cadeirydd a'r Gweinidog sy'n aelod o'r pwyllgor yn rhinwedd adran 57 (4).

**Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc**

9.2 Dewisir cadeiryddion y pwyllgorau pwnc o banel o Aelodau a etholir gan y Cynulliad er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y panel. Bydd i'r panel gynifer o aelodau â nifer y pwyllgorau pwnc. Ni fydd Ysgrifenyddion y Cynulliad yn gymwys i fod yn aelodau o'r panel.

9.3 Bydd y Trefnydd yn cyflwyno cynigion ar gyfer ethol Aelodau yn aelodau o'r panel, ac ar gyfer dewis cadeiryddion pwyllgorau pwnc penodol, ar ôl ymgynghori yn y Pwyllgor Busnes â'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

9.4 Ni ellir cynnig unrhyw welliant i gynnig a wneir o dan baragraff 9.3. Gall y Llywydd ganiatáu i'r Trefnydd wneud y cynnig, i un Aelod o bob grp gwleidyddol ymateb ac i'r Trefnydd ymateb, ac yna bydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig.

9.5 Gall Aelod a etholir i'r panel ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd. Bydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r panel wrth roi'r gorau i fod yn aelod o unrhyw grp gwleidyddol yr oedd yn ei gynrychioli pan etholwyd ef neu hi i'r panel. Bydd aelod sy'n ymddiswyddo o fod yn aelod o'r panel neu'n rhoi'r gorau i fod yn aelod yn rhoi'r gorau i fod yn gadeirydd pwyllgor pwnc.

9.6 Gall y panel ystyried materion yngln â dull gweithredu'r pwyllgorau pwnc. Gall y Dirprwy fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel a thrwy wahoddiad gall gadeirio unrhyw gyfarfodydd o'r fath.

**Cyfrifoldebau**

9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

(i) yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

(ii) yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a

(iii) yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

(i) yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;

(ii) yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â rheol sefydlog 19;

(iii) yn cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 21 (cynion);

(iv) yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan reol sefydlog 21; a

(v) yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd.

9.9 Bydd pob pwyllgor pwnc yn cynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf. Bydd y rhaglenni hyn yn nodi pynciau neu faterion o fewn cylch gwaith y pwyllgor sydd i gael sylw manwl (gan gymryd i ystyriaeth waith arall y pwyllgor o dan baragraffau 9.7 a 9.8 a'r materion brys a fydd yn codi o bryd i'w gilydd). Bydd y pwyllgorau pwnc yn gwahodd sylwadau pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar eu rhaglenni drafft, a byddant yn rhoi sylw i'r sylwadau a geir cyn penderfynu ar eu gwedd derfynol. Bydd pob pwyllgor pwnc yn hysbysu'r Cynulliad yngln â'i raglenni, a bydd yn adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar ei gynnydd wrth eu cyflawni.

## Cyfarfodydd y Pwyllgorau Pwnc

9.10 Cadeirydd pob pwyllgor pwnc fydd yn pennu'r agendâu ar gyfer ei gyfarfodydd, gan ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol; ond gall y Gweinidog fynnu bod eitemau penodol yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor pwnc. Ar gais unrhyw ddau o'i aelodau, gall y pwyllgor benderfynu cynnwys eitem o fusnes ar agenda cyfarfod penodol yn y dyfodol.

9.11 O bryd i'w gilydd bydd y Gweinidog yn adrodd ar faterion sy'n ymwneud â chyflawni ei gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi; ond gall aelod o bwyllgor pwnc gynnig y dylai'r Gweinidog roi adroddiad llafar neu ysgrifenedig i'r pwyllgor ar fater penodol o fewn cylch gwaith y pwyllgor, ac os bydd y pwyllgor yn penderfynu felly, bydd y Gweinidog yn cyflwyno

adroddiad ar y mater o fewn cyfnod y cytunir arno gyda'r cadeirydd.

**<u>Presenoldeb mewn Cyfarfodydd</u>**

9.12 Gall aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor pwnc fynychu cyfarfodydd y pwyllgor pan fydd y rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus. Drwy sicrhau caniatâd y cadeirydd ymlaen llaw, gallant gyflwyno sylwadau byr ar eitemau unigol o fusnes y pwyllgor sy'n cyffwrdd â buddiannau penodol etholaeth neu ranbarth cyn i'r drafodaeth am y rheiny ddod i ben, ond ni chânt bleidleisio. Caiff Ysgrifenydd Cynulliad, nad yw'n aelod o bwyllgor pwnc penodol fynychu cyfarfod y pwyllgor hwnnw lle bydd gan y mater o dan sylw gysylltiad agos â'i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi, a chaiff gymryd rhan yn y cyfarfod gyda chaniatâd y cadeirydd.

9.13 Gall aelod o bwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod pwyllgor pwnc gan Aelod arall o'r un grp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, bydd yr Aelod yn nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Gall y cynrychiolydd a enwebir gymryd rhan yng nghyfarfod y pwyllgor ym mhob ffordd fel petai'n aelod ohono. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod pwyllgor mewn cyfarfod.

**<u>Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau</u>**

9.14 Gall pwyllgor pwnc, ac is-bwyllgor pwyllgor pwnc, arfer y pwerau yn adrannau 74 a 75 o'r Ddeddf.

9.15 Gall aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor wneud cynnig i wysio tystion neu ar gyfer dangos dogfennau. Bydd unrhyw gynnig o'r fath yn enwi'r personau sydd i'w gwysio a'r dogfennau sydd i'w dangos.

9.16 Pan fydd pwyllgor neu is-bwyllgor wedi penderfynu gwysio tystion neu orchymyn bod dogfennau yn cael eu dangos, bydd y cadeirydd yn hysbysu'r Llywydd yngln â thelerau'r penderfyniad, ac yn gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Bydd y cyfryw hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, ac yn cydymffurfio â gofynion adran 74(7).

9.17 Gall fod yn ofynnol i berson sydd wedi'i wysio i fod yn bresennol dyngu llw (neu roi cadarnhad). Lle bydd llw i'w weinyddu o dan y paragraff hwn, bydd iddo'r ffurf ganlynol:

> "Tyngaf i Dduw Hollalluog y bydd y dystiolaeth a roddaf yn eirwir ac yn onest, ac y byddaf yn rhoi i'r pwyllgor bob gwybodaeth a chymorth ag a allaf i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau",

ond lle bo'n well gan y sawl sy'n rhoi'r dystiolaeth roi cadarnhad, bydd y cadarnhad ar y ffurf

ganlynol:

> "Yr wyf yn datgan yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll y bydd y dystiolaeth a roddaf yn eirwir ac yn onest, ac y byddaf yn rhoi i’r pwyllgor bob gwybodaeth a chymorth ag a allaf i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau".